COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 3 MEHEFIN 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Dave Ritchie, Bob Barton, Nick Smith, Kenneth Tams a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cyng Tim Baker, Rhian Jones, Jackie Bird a Gruff Jones.

2: DATGANIADAU O DDIDDORDEB
Dim.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 20 Mai 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Dywedodd Lyn Evans fod cylchgrawn Link wedi ei brintio a'i fod yn barod i gael ei ddosbarthu, o ddydd Mawrth 4 Mehefin ymlaen. Diolchodd yr Aelodau i'r Cyng Evans am ei fewnbwn.
B. Achlysur Goleuadau Nadolig – Penderfynwyd cynnal y digwyddiad yma ar ddydd Gwener 6 Rhagfyr 2019, gan gychwyn o Eglwys hynafol Sant Pedr, ac yna i'r Ardd Lechi cyn diweddu yn Neuadd y Pentref. Cytunodd y Cyng Lyn Evans i sicrhau argaeledd y Parch. Philip Chew, Mr Richard Thomas, Neuadd y Pentref a phlant a staff yr Ysgol ar gyfer yr achlysur. Penderfynodd yr Aelodau drafod y bwyd a'r adloniant yn y cyfarfod nesaf.
C. Ardal Werdd y Cynllun Datblygu Lleol – Mae Lyn Evans wedi siarad â Meirion Jones, ac mae yntau, ar ei ran ei hun a pherchnogion eraill y tir sy'n cael ei ddatblygu, wedi cytuno eu bod am dalu am greu llwybr drwy eu tir hwy sy'n rhan o'r datblygiad a thrwy'r fynwent, er mwyn darparu ffordd ddiogel i groesi o un hanner o'r pentref i'r llall. Maent hefyd yn cysidro symud yr "Ardal Werdd" ymhellach oddi wrth yr A494.
D. Mae Huw Williams, Cadeirydd Neuadd Pentref Llanbedr, wedi galw cyfarfod arbennig er mwyn trafod cwestiynau a gofynion y Cyngor. Bydd yn ymateb ar ôl y cyfarfod.
E. Mae Cadeirydd Clwb Pêl Droed Llangynhafal wedi diolch am y cymorth grant tuag at gostau parhaus a gawsant gan y Cyngor. Maent hefyd yn holi a oes tir ar gael yn Llanbedr ar gyfer cae pêl droed. Penderfynodd yr Aelodau ysgrifennu at Williams Homes i holi a oes man gwyrdd ar gael ar gyfer cae pêl droed/man chwarae i'r plant ochr draw i'r datblygiad tai.
F. Mae Cadeirydd Cyfeillion Ysgol Llanbedr wedi anfon diolch am y cymorth grant a gawsant gan y Cyngor tuag at gostau'r 'Astroturf'.

5. LLYTHYR ADRAN 106 I GYNGOR SIR DDINBYCH.
Mae Nick Smith wrthi'n cyfansoddi llythyr i Gyngor Sir Ddinbych i hawlio'r taliad o £27,604.42 sy'n ddyledus gan Williams Homes / Pennaf Housing i'r Cyngor Cymuned ar ôl cwblhau / meddiannu'r 10fed tŷ.

6. MESURAU TAWELU TRAFFIG.
Mae Dave Ritchie a Bob Barton wrthi'n trefnu cyfarfod safle gyda'r Awdurdodau Priffyrdd perthnasol i drafod y mesurau tawelu traffig sy'n angenrheidiol i Lanbedr.

7. ATGYWEIRIO LLOCHES BWS LLANBEDR.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflwyno dyfynbris o £180 ar gyfer torri a symud y coed sy'n peri rhwystr tu ôl i'r lloches bws ar yr A494. Penderfynodd yr Aelodau dderbyn dyfynbris Cyngor Sir Ddinbych yn y lle cyntaf a gofyn a oes unrhyw grantiau ar gael i adnewyddu'r lloches.

B. Gwaith adfer y fainc a'r ffens ayb yng Nghoedwig y Waen. Derbyniwyd dyfynbris Simon Hughes, sy'n byw'n lleol. Bydd Lyn Evans yn goruchwylio'r gwaith.

8. CYFRIFON BANC AR GYFER CRONFEYDD WRTH GEFN Y CYNGOR.

Dywedodd Lyn Evans fod Banc y Nat West yn talu llog o 2% ar Gyfrif Cynilion Busnes, i'w gymharu ag 1.8% gan Fanc HSBC. Penderfynodd yr Aelodau aros gyda Banc y Nat West.

9. PWYLLGOR LLANBEDR EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Dywedodd Pwyllgor Ardal Llanbedr eu bod wedi codi £4,800 tuag at y targed o £6,000 ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020. Maent yn gobeithio codi'r gweddill gyda digwyddiad yn y Vale Country Club ym mis Tachwedd, ac maent yn gofyn i'r Cyngor Cymuned dalu am y costau paratoi ar gyfer y noson. Penderfynodd yr Aelodau gytuno â'r cais ar ôl cael gwybod faint o arian fydd ei angen.

10. FFURFLEN FLYNYDDOL Y CYNGOR AR GYFER 2019.

Cafodd Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2019 ei chwblhau a'i llofnodi gan y Cadeirydd a'r Clerc, a bydd yn awr yn cael ei hanfon ymlaen i'w harchwilio gan yr Archwiliwr Mewnol.

11. CYLLID.

A. Derbyniadau tuag at Gyrsiau Hyfforddiant Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gyngor Cymuned Llanbedr:-

1. Cyngor Tref Dinbych - £80.00.
2. Cyngor Tref Bodelwyddan - £80.00.

B. Taliadau awdurdodedig:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2019 - £440.00.
2. Cyllid a Thollau EM ar gyfer TWE am y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019 - £110.00.
3. Lyn Evans am stampiau ac amleni wrth ddosbarthu cylchgrawn y Link - £231.50.
4. Dave Ritchie ar gyfer blwch i ddal y gynnau mesur cyflymder - £13.00.

C. Penderfynodd yr Aelodau i'r Clerc gofrestru ar gyfer "Bancio Rhyngrwyd" gyda Bancwyr y Cyngor at ddibenion cyfleustra gan nad oes Banc Nat West yn Rhuthun.

12. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Yn dilyn adroddiad gan Nick Smith, penderfynodd yr Aelodau gefnogi'r ceisiadau cynllunio canlynol a dderbyniwyd ar gyfer sylwadau: -

A. Cais Cynllunio 16/2019/0285/PF & 16/2019/0286/LB - Adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân a gwneud newidiadau mewnol yn Nhafarn y Griffin, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

B. Cais Cynllunio 16/2019/0409 – Dymchwel adeiladau allanol presennol, adeiladu adeilad allanol newydd a chreu lle parcio ychwanegol ym Maenor Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth gan Huw Williams y Cynghorydd Sir.

14. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd e-bost gan un o drigolion Llanbedr yn poeni ynglŷn â'r hen flwch oergell cymalog sydd wedi ei barcio ym maes parcio'r Griffin, ynghyd a'r "iard sgrap" sy'n cynyddu'n ddyddiol o flaen y garej dros yr A494. Cytunodd Bob Barton y byddai'n gwneud ymholiadau gyda'r awdurdodau perthnasol parthed y materion a godwyd.

B. Diweddariad ar e-bost gan Tim Baker parthed Sioe Llanbedr. Ni fydd y Sioe yn cael ei chynnal yn 2019 gan nad oes ond pedwar aelod ar Bwyllgor y Sioe erbyn hyn. Fodd bynnag, gobeithir y bydd yna Sioe yn 2020. Bydd y Pwyllgor yn ceisio helpu i adfer Sioe 2020.

C. Cynhadledd a Digwyddiad Rhwydweithio Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru ar y cyd – "Llunio'ch Cymuned - Rôl Cynlluniau Cymunedol a Chynlluniau Lleoedd" – yn Llanrwst ar 11 Mehefin 2019. £60 ar gyfer pob cynrychiolydd. Penderfynodd yr Aelodau gyfrannu 25% o'r gost, sef £15, er mwyn i Bob Barton gael mynychu'r gynhadledd.

15. MATER BRYS DAN ADRAN 100N(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

A. Cytunodd Lyn Evans y byddai'n strimio'r llwybr gwyrdd at Eglwys hynafol Sant Pedr, gyda chymorth Mr Gwyn Williams.

B. Eitem agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor – "Rhaglen Datblygu Cymunedol" – Ymgysylltiad cymunedol gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn y Presept – Gruff Jones, Bob Barton a Nick Smith.

16. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 1af Gorffennaf 2019 yn Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.